

Cyfansoddiad

Pwyllgor o'r Cyngor i gael ei adnabod fel y **Pwyllgor Rheoleiddio** a sefydlwyd gyda'r Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog canlynol drwy benderfyniad y Cyngor dyddiedig 21 Mawrth 2018.

Cylch Gorchwyl

Dyma fydd dyletswyddau penodol y Pwyllgor:

- i. Cyngori ar weithredu cyfrifoldebau rheoleiddio CCAUC o dan Ddeddf AU (Cymru) 2015.
- ii. Ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y Cyngor am asesu a monitro cynlluniau mynediad a ffioedd, gan wneud argymhellion i'r Cyngor.
- iii. Parhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau rheoleiddio CCAUC ac, os yw hynny'n briodol, gweithio gydag eraill i sefydlu trefniadau newydd neu well.
- iv. Edrych yn gyffredinol ar weithredu Datganiad Ymyriad CCAUC, gan gynnwys parhau i adolygu'r ddogfen honno.
- v. Cyngori ar weithredu cyfrifoldebau CCAUC am reoli'r broses Dynodiad Penodol ar ran Llywodraeth Cymru.
- vi. Ystyried unrhyw faterion a gyfeirir i sylw'r Pwyllgor gan y Cyngor.
- vii. Adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar weithredu ei gyfrifoldebau rheoleiddio, i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru ar ôl i'r Cyngor ei ystyried.

Rheolau Sefydlog

Bydd Rheolau Sefydlog Pwyllgorau CCAUC yn berthnasol, gan gynnwys sicrhau bod y cyngor a roddir gan y Pwyllgor i'r Cyngor yn cael ei roi yn unol ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Aelodaeth a Phresenoldeb

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at wyth aelod, gan gynnwys o leiaf dri aelod o'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor.

Bydd aelodau eraill y Pwyllgor yn cynnwys Prif Weithredwr CCAUC, Llywydd NUS Cymru (neu enwebai) ac aelodau annibynnol ag arbenigedd mewn ehangu mynediad, rheoleiddio a chyllid.

Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor yw tri aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

Amledd y Cyfarfodydd

Fel rheol bydd dau gyfarfod y flwyddyn.

Awdurdod

Mae'r Pwyllgor yn gorff cyngori heb unrhyw bwerau gweithredol.

Mae gan y Pwyllgor awdurdod i sicrhau cyngor proffesiynol annibynnol os yw'n teimlo bod hyn yn angenrheidiol, yn unol â Rheolau Sefydlog Pwyllgorau CCAUC.

Adrodd yn ôl

Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ac wedyn ceir cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar gyflawni ei ddyletswyddau.

Adolygu

Bydd Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth.

.....

Cyfansoddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

Aelodau'r Pwyllgor

Cyngor

- 1 aelod o'r Cyngor (Cadeirydd)
- 1 aelod o'r Cyngor yn cynrychioli'r Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr (SOAC)
- 1 aelod o'r Cyngor yn cynrychioli'r Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC)
- Prif Weithredwr CCAUC

Enwebiadau ar gyfer penodi i'r Pwyllgor

- 1 aelod ag arbenigedd mewn ehangu mynediad
- 1 aelod ag arbenigedd mewn rheoleiddio
- 1 aelod ag arbenigedd mewn cyllid

Cynrychiolaeth y myfyrwyr

- Llywydd NUS Cymru neu enwebai

Swyddogion

- Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol
- Pennaeth Ehangu Mynediad a Chynhwysiant (Ysgrifennydd)
- Uwch Reolwr Rheoleiddio a Strategaeth

Erail yn bresennol

Unigolion ychwanegol drwy wahoddiad, yn unol ag agenda'r Pwyllgor, gan gynnwys swyddogion CCAUC.